

O'R CYNRADD I'R
UWCHRADD

Gareth James Ysgol Gyfun Ystalyfera



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



**ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES**
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Yn wreiddiol o bentref gwledig Llangennech ger Llanelli mae Gareth James bellach yn athro dylunio a thechnoleg yn Ysgol Gyfun Ystalyfera. Ers ei gyfnod yn y coleg yng Nghaerfyrddin, addysgu oedd wedi mynd a'i fryd ond i'r sector gynradd yr aeth yn wreiddiol a hynny am bron i ugain mlynedd.

"Yn ystod fy nghyfnod yn y coleg bum yn ddigon ffodus i gael sawl profiad o ymweld ag ysgolion ac roeddwn yn weddol sicr fy mod am fentro i'r byd addysg gan fy mod nid yn unig wedi mwynhau'r profiadau hynny yn fawr ond yn awyddus hefyd i allu wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc."

Roedd y penderfyniad gwreiddiol i addysgu yn y sector cynradd yn un naturiol, gan mai i'r cyfeiriad hwnnw oedd y profiad yn eich arwain yng Ngholeg y Drindod a dyna a wnaeth Gareth.

"Roeddwn yn hapus iawn yn y sector cynradd ac yn falch o'r cyfleoedd amrywiol oedd yn dod i'm rhan ond roedd wastad gen i awydd i roi cynnig ar addysgu uwchradd. Felly pan welais y cwrs pontio yn cael ei gynnig, doedd dim dewis ond mynd amdani."

Un o'r prif bethau sydd wedi taro Gareth yw'r cyfle nawr i ddylanwadu mewn ffordd wahanol ar bobl ifanc.

"Wrth symud o'r cynradd i'r uwchradd, mae'r dylanwad posib rydych yn gallu cael ar y bobl

ifanc yn newid. Fi'n parhau i'w paratoi o safbwynt academaidd, ond mae pwyslais yn ogystal ar eu paratoi ar gyfer byd gwaith, a sicrhau sgiliau bywyd ar gyfer y dyfodol. Mae aeddfedrwydd y bobl ifanc yn datblygu, ac mae'r ffocws o ran eu dyfodol yn tyfu."

Mae Gareth hefyd yn teimlo'n gryf am allu cyflwyno ei bwnc drwy gyfrwng y Gymraeg.

"Cefais fy magu ar aelwyd ddwyieithog ac mae'r rhodd hwnnw o dderbyn dwy iaith wedi fy ngalluogi i fanteisio ar gymaint o brofiadau. Drwy fyd y Ffermwyr Ifanc a'r Eisteddfodau amrywiol, mae'r Gymraeg yn holl bwysig i fi, ac mae'r iaith a'r diwylliant wedi cael dylanwad anferth ar yr hyn rydw i wedi gwneud a chyflawni yn fy mywyd."

Mae Gareth yn cyfaddef fod y newid wedi bod yn gam mawr, ond yn un sydd wedi rhoi pleser aruthrol iddo.

"Ar lefel bersonol, mae e wedi bod yn brofiad hynod bositif, ac rydw i wir wedi mwynhau ac os oes 'na rywun allan yno yn darllen hwn ac yn pendroni, byddwn i'n eich annog chi i fanteisio ar y cyfle, wnewch chi ddim difaru."

#AddysguCymru
addysgwyr.cymru